# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Bryn Seiont Newydd**

**Bryn Seiont Newydd**
**Ffordd Pant**
**Caernarfon**
**LL55 2YU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 17 a 22 Awst 2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Bryn Seiont Newydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Pendine Park Care Organisation Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 107 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 15 Medi 2022. |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn elwa ar gael gofal gan dîm o staff cyfarwydd sy'n deall eu hanghenion yn dda yn Bryn Seiont Newydd. Mae'r cyfraddau recriwtio a chadw yn dda ar hyn o bryd yn y gwasanaeth sy'n sicrhau bod y bobl yn cael gofal parhaus. Mae'r cynlluniau gofal personol yn canolbwyntio ar anghenion pob unigolyn ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd wrth i gyflyrau pobl yn newid. Dywedodd teuluoedd y bobl wrth Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), eu bod yn fodlon ar y gofal y mae eu perthnasau yn ei gael, a bod y staff yn gyfeillgar, y cartref yn lân, a'r bwyd yn dda. Cynigir gweithgareddau dyddiol i'r bobl i ysgogi eu cof a hyrwyddo cymdeithasu. Gwelsom y bobl, eu teuluoedd a'r staff yn mwynhau ffair haf yn ystod yr ymweliad arolygu. Mae'r cartref wedi'i leoli mewn adeilad modern pwrpasol sydd wedi'i ddylunio mewn ffordd greadigol ac arloesol i ddarparu gofal i bobl sy'n byw gyda dementia. Mae dyluniad y cartref wedi cael ei gydnabod fel un o'r rhai mwyaf blaenllaw yn y maes ac mae wedi ennill gwobr. Mae'r staff yn hapus yn gweithio yn y cartref ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn mesur ansawdd y gofal a gynigir i'r bobl.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae cynlluniau personol y bobl yn nodi eu hoff bethau a'u cas bethau yn ogystal â'u harferion dewisol wrth gael gofal yn ystod y dydd a'r nos. Gwelsom fod y ffolder gweithgareddau yn cofnodi'r gweithgareddau y mae'r bobl yn eu mwynhau a phryd y maent yn cael eu cynnig. Gwelsom y bobl, eu teuluoedd a'r staff yn mwynhau ffair haf gydag adloniant gan y canwr Cymreig, Dafydd Iwan.  Gall y bobl addurno eu hystafelloedd â gwrthrychau personol sy'n werthfawr iddynt ac mae'r blychau atgofion y tu allan i bob ystafell yn cynnwys eitemau cofiadwy'r unigolyn. Mae hyn hefyd yn galluogi'r unigolyn i adnabod ei ystafell ei hun. Caiff dewisiadau'r bobl o ran bwyd a diod eu cofnodi. Dywedodd teuluoedd y bobl a'r staff wrthym fod y bwyd yn y cartref yn dda. Gwelsom fod diodydd a byrbrydau ar gael yn hawdd a bod y staff yn helpu'r bobl gyda'u prydau yn gyson. Mae'r cartref yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn effeithiol. Caiff dewisiadau iaith y bobl eu cofnodi yn eu cynlluniau personol. Mae cyfran fawr o'r staff yn gallu siarad Cymraeg â'r nifer mawr o breswylwyr sy'n siarad Cymraeg. Caiff busnes y cartref ei gynnal yn ddwyieithog lle y bo'n bosibl.

Gwnaethom siarad â theuluoedd y bobl ynglŷn â'u barn am y gofal yn y cartref. Dywedodd un unigolyn, "*It's very good here, we are happy with the room and quality of the food, they're putting on weight. They seem to enjoy the activities; I've seen their paintings".* Dywedodd teuluoedd eraill, "*very good", "lovely", "loves it here".* Gwnaeth teulu arall ganmol y bwyd yn Gymraeg, gan ddweud bod ei berthynas yn magu pwysau, *"Mae'r bwyd yn dda, mae'n rhoi pwysau ar."* Gwnaeth teuluoedd eraill ganmol y staff, gan ddweud eu bod yn garedig a bod eu perthnasau yn hapus.

Gall y nyrsys a'r gweithwyr cymorth gofal ddisgrifio'r broses ddiogelu leol. Maent yn gwybod sut i gyfeirio at y tîm ddiogelu os byddant yn poeni am ofal y bobl. Gall pobl heb deulu neu gynrychiolwyr gael gafael ar eiriolwyr er mwyn sicrhau y caiff eu hawliau eu hamddiffyn.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor iach â phosibl. Gwelsom dystiolaeth bod y bobl yn cael adolygiadau meddygol rheolaidd ac asesiadau gan feddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ôl yr angen ac mewn modd amserol. Gwelsom fod y bobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau optegydd a deintyddol ymhlith eraill yn ôl yr angen. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant *"Gwên am Byth"* i sicrhau bod y bobl yn cael gofal y geg o safon dda, a gwelsom fod yr asesiadau priodol yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Caiff mapiau o'r corff eu defnyddio i fonitro cyflwr croen y bobl, a chaiff y gwiriadau a'r cymorth corfforol a roddir i'r bobl eu cofnodi ar siartiau. Mae cynlluniau personol y bobl yn cynnwys cynlluniau gofal yn ymwneud â gweithgareddau bywyd pob dydd ac anghenion gofal unigol y bobl. Caiff y cynlluniau eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae cynllun pob unigolyn yn cynnwys asesiadau risg craidd er mwyn sicrhau y gofelir amdano yn y ffordd fwyaf diogel posibl. Gwelsom gydberthynas dda rhwng y bobl a'r staff, a bod y staff yn diwallu anghenion y bobl mewn ffordd sensitif. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ofalu am bobl sy'n byw gyda dementia a chaiff y bobl eu trin ag urddas a pharch.

Mae'r bobl yn cael y feddyginiaeth a ragnodwyd ar eu cyfer. Mae arferion rhoi a storio meddyginiaethau yn y cartref yn effeithiol. Dywedodd y staff fod y gwasanaeth gan fferyllwyr lleol yn dda ac mae'r bobl yn gallu cael gafael ar eu presgripsiynau mewn modd amserol.

Mae'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r cartref yn gweithio'n agos gyda'r Byrddau Iechyd ac yn archwilio'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau safonau gofal da. Mae'r gwasanaeth yn rhoi gwybod i AGC yn gyson am unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau sy'n effeithio ar y gallu i redeg y gwasanaeth yn ddidrafferth.

## Yr Amgylchedd

Mae gwiriadau iechyd a diogelwch ar waith i sicrhau diogelwch y bobl. Caiff cyfleustodau megis nwy, dŵr a thrydan eu gwirio, a chawsom gopïau o'r tystysgrifau. Mae gan y cartref yswiriant atebolrwydd cyfredol. Mae'r bobl yn gallu cael gafael ar y cyfarpar sydd ei angen ar gyfer eu gofal, a chaiff y cyfarpar ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Cynhelir gwiriadau tân wythnosol i sicrhau bod y larymau a'r goleuadau argyfwng mewn cyflwr da. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar y trefniadau ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Mae gan y bobl Gynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEPS), fel y gellir sicrhau eu bod yn gadael yr adeilad yn ddiogel os bydd tân neu argyfwng. Mae'r gegin wedi cael sgôr hylendid bwyd o 5, sef y sgôr uchaf bosibl.

Mae'r adeilad wedi'i ddylunio'n fedrus. Mae'r cartref wedi cael ei ddylunio a'i adeiladu'n bwrpasol gan ystyried gofal dementia. Mae'r amgylchedd yn ystyriol o ddementia ac yn cynnwys defnydd da o liw a gwead. Enillodd y cartref Wobr Pinder am ei ddyluniad. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cynnwys planhigion aeddfed a phlanhigion synhwyraidd i'r bobl eu mwynhau. Ceir ardal y gellir cerdded drwyddi ar y llawr cyntaf lle y gall y bobl eistedd yn yr awyr agored yn ddiogel ac edrych i lawr ar erddi'r iard. Ceir nifer o ardaloedd eistedd yn yr awyr agored, a gwelsom deuluoedd yn mynd â'u perthnasau allan mewn cadeiriau olwyn i fwynhau'r haul. Mae pob *"tŷ"* yn uned o fewn y cartref sy'n cynnwys ei lolfeydd ei hun lle y gall y bobl fwynhau eu prydau a chymdeithasu, yn ogystal ag ardaloedd tawelach. Ceir ardaloedd cymunedol i'r teuluoedd fwynhau coffi gyda'u perthynas ac ystafell gerddoriaeth/gweithgareddau fawr. Caiff y cartref ei gynnal a'i gadw'n gyson er mwyn cadw'r amgylchedd yn ffres. Mae'r dodrefn a'r llenni a deunyddiau o safon uchel iawn. Dywedodd aelod o deulu un o'r bobl wrthym, "*mae'r stafell yn Lyfli, pob tro yn lan a twt".*

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn mesur ansawdd y gwasanaeth ac yn cofnodi'r canlyniadau mewn adroddiad fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref ac yn siarad â'r staff a'r teuluoedd er mwyn ceisio eu barn am y gwasanaeth. Caiff y cartref ei oruchwylio'n dda ac mae'r rheolwyr yn cynnal hapwiriadau'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gofal o safon dda. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn cael cymorth da gan yr Unigolyn Cyfrifol i'w alluogi i gyflawni ei rôl.

Mae trefniadau recriwtio a chadw staff da ar waith i sicrhau parhad gofal. Roedd y rotas gwaith yn dangos bod nifer cyson o staff ar ddyletswydd.  Dywedodd y staff wrthym eu bod hapus yn y gwaith ac yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr, sy'n hawdd mynd atynt ac yn hawdd cael gafael arnynt. Roedd y ddogfennaeth hyfforddiant yn dangos bod y bobl yn cael hyfforddiant cyson ar sail dreigl i'w galluogi i fod yn wybodus wrth eu gwaith. Mae gan y sefydliad ei academi hyfforddiant ei hun a rannodd ei hyfforddiant ar reoli heintiau â'r Bwrdd Iechyd yn ystod pandemig COVID-19. Gwelsom gofnodion yn dangos bod y staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd er mwyn eu cefnogi yn eu rolau a sicrhau arferion da. Mae'r ffeiliau personél yn dangos bod y staff wedi cwblhau gwiriadau i sicrhau eu bod yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed.

Nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi rhoi gwybod i AGC am unrhyw anawsterau ariannol mewn perthynas â'r cartref. Gwelsom fod staff yn cael eu recriwtio yn ôl yr angen ac y gallant gael gafael ar hyfforddiant. Mae'r cartref yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a chaiff y cyfarpar ei newid yn ôl yr angen. Mae'r bobl yn gallu cael gafael ar brydau a byrbrydau a chaiff cyflenwadau o fwydydd ffres eu dosbarthu i'r cartref.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/10/2023